| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 20 / 09 / 2023 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag adroddiad blynyddol drafft y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cyngor

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I'r Pwyllgor ystyried a rhoi sylwadau ar yr adroddiad drafft a'r atodiadau sydd ynghlwm fel Atodiad 1 er mwyn i fersiwn terfynol gael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2023.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad drafft a'r atodiadau sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yn amodol ar unrhyw newidiadau a awgrymir y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor. ystyriaethau

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Testun yma  Mae'n ofynnol yn statudol ar y Cyngor o dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011, fel y'i diwygiwyd, i gael Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Y Pwyllgor yw pwyllgor dynodedig y Cyngor at y diben hwn. Rôl statudol y Pwyllgor Archwilio yw:

• adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod,

• gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod,

• adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod a gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny

• goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod,

• adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr awdurdod
• adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol a llunio adroddiadau ac argymhellion ar y gallu hwnnw (ers Mai 2022)

Y Pwyllgor hefyd yw'r corff sy'n gyfrifol am gadw'r Cyfansoddiad dan adolygiad.

4.2. Cyn mis Mai 2022, roedd y Pwyllgor yn cynnwys chwe aelod etholedig ac aelod lleyg. Cadeirydd y Pwyllgor ar yr adeg hon oedd y Cynghorydd Barry Mellor. Roedd hyn yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth oedd mewn grym ar y pryd.

4.3. Diwygiodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y sefyllfa. Mae’r gyfraith bellach yn mynnu bod yn rhaid i draean o aelodau’r Pwyllgor fod yn aelodau lleyg. Felly mae chwe aelod etholedig ar y Pwyllgor a thri aelod lleyg. Mae gofyniad statudol hefyd bod yn rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelod lleyg. Cadeirydd presennol y Pwyllgor yw Mr. David Stewart.

4.4. Mynychir pob cyfarfod o’r Pwyllgor gan Swyddog a151 y Cyngor, y Swyddog Monitro a Phennaeth Archwilio Mewnol neu eu cynrychiolwyr. Yn ogystal, mynychir pob cyfarfod gan swyddogion Archwilio Cymru.

4.5. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnodau 2020/21, 2021/22 a 2022/23. Mae hyn o ganlyniad i oedi yn yr adroddiadau blynyddol ar gyfer 2020/21 a 2021/22.

4.6. Ceir trosolwg byr o fusnes y Pwyllgor dros y cyfnodau hynny yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn

4.7. Bydd rhifyn yr adroddiad hwn a gyflwynir y flwyddyn nesaf (mewn perthynas â 2023-24), yn ogystal â nodi sut mae'r Pwyllgor wedi bodloni ei gylch gorchwyl, hefyd yn cynnwys canlyniadau hunanwerthusiad blynyddol y Pwyllgor o'i effeithiolrwydd yn erbyn y 'Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu' a chanllawiau cysylltiedig, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn 2022. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i godi unrhyw bryderon a allai fod wedi bod ganddo yn ystod y flwyddyn, beth mae wedi'i wneud i uwchgyfeirio'r rhain a/neu wneud argymhellion yn ôl yr angen

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r Pwyllgor yn cyflawni rôl bwysig mewn perthynas â thema'r Cynllun Corfforaethol o Gyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad

# 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghori gyda'r Pwyllgorau Archwilio nac eraill at ddibenion yr adroddiad hwn

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn chwarae rhan allweddol wrth helpu i sicrhau bod Sir Ddinbych yn Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda fel y crynhoir yn Adran 4 ac y manylir arno yn yr adroddiad. Nid oes gan yr adroddiad hwn unrhyw effaith ariannol uniongyrchol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Testun ymaY risg o beidio â chael Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio effeithiol yw y gallai fod diffyg goruchwyliaeth o lywodraethu corfforaethol y Cyngor sy’n elfen allweddol o berfformiad da. Gall llywodraethu corfforaethol gwan gyfrannu at fethiannau wrth ddarparu gwasanaethau

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn am adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor